Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 28 Gorffennaf 2014 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, Elisabeth Culshaw, Bob Costain, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Anne Roberts ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

55. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Sioned Foulkes, Robert Owen-Ellis, Katy Morgan Williams a Geraint Woolford.

56. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. Emrys Wynne ddiddordeb yn yr eitem ganlynol, gan mai 'gwr fy chwaer yw'r Trysorydd' a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd:
Cof. Rhif 65(b) - Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Côr Rhuthun.

57. CYNLLUN TREF RHUTHUN

Derbyniwyd cyflwyniad gan Huw Hilditch-Roberts, Cynghorydd Sir, wnaeth roddi diweddariad i'r aelodau ar Gynllun Tref Rhuthun. Pwysleisiodd y ffaith byddai'n rhaid i unrhyw brosiect fod yn y Cynllun i gael arian - cytunwyd y strwythur ryw 18 mis yn ôl pan sefydlwyd Tîm y Dref. Mae tair thema i'r Cynllun sef: Tref am fywyd; tref ganoloesol sy'n ffynnu a thref profiad 7 niwrnod. Sefydlwyd Tîm y Dref i alluogi cydweithio mwy trefnus gyda Chymdeithasau / Mudiadau eraill. Bydd traffig un ffordd yng Nghornel yr Angor cyn bo hir. Cymerodd gwestiynau gan aelodau yn cynnwys: agor ar y Sul; llwyddiant y Llwybr Celf; marchnata ar y we; ariannu'r cydlynydd; cyhoeddusrwydd a diffyg marchnata. Dywedodd wrth yr aelodau i ryw 400 o bobl fynychu drama Hamlet yn Nantclwyd y Dre yn ddiweddar a bod cannoedd o bobl wedi bod yn nigwyddiad triathlon. Diolchwyd iddo gan y Maer.

58. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

24 Meh Cyfarfod par Rhyfel Byd Cyntaf
26 Meh Cyfarfod Bwrdd Iechyd yng Nghei Conna
27 Meh Agor Canolfan Ddydd newydd, Valley Lodge, Llanarmon yn Iâl
28 Meh Lansio Marie Curie Rhuthun a Dinbych Capel y Tabernacl
3 Gor Cyfarfod yn Ysgol Brynhyfryd par gwasanaeth Rhyfel Byd Cyntaf
4 Gor 'Town Hall Gospel Choir' yn Ysgol Brynhyfryd
6 Gor Sul Dinesig
7 Gor Beirniadu Cystadleuaeth Arddangosfa Flodeuol
8 Gor Cyngerdd Pafiliwn Llangollen
10 Gor Cyfarfod Cist Gymunedol yn Nhrefnant; Corff Llywodraethol Ysgol Stryd y Rhos
12 Gor Lansio Wikipedia Rhuthun yn Awelon
13 Gor Sul Dinesig Maer Rhyl
15 Gor Cyfarfod Tîm y Dref yng Nghastell Rhuthun
16 Gor Cyfarfod safle par Bin Ysbwriel Cae Seren; cyfarfod Cydlynydd Rhuthun
17 Gor Te Ffarwel Ysgol Borthyn par Mr Neil Roberts; Gwobrwyon Quayle Tafarn y Plu
18 Gor Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Nghei Conna
21 Gor Cyflwyno Beibl Y Gideoniaid yn Neuadd y Dref
25 Gor Diwrnod Agored 'Goodman; Diwrnod Agored yn Llys Awelon
26 Gor Gwasanaeth Rhyfel Byd Cyntaf - Cadeirlan Llanelwy
27 Gor Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn Y Rhyl

59. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Gŵyl Rhuthun x 2, Sul Dinesig.
Cyng. Elisabeth Culshaw	Sul Dinesig; Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon, Cyfarfod Blynyddol Ffrindiau Ysbyty Rhuthun
Cyng. June Derry	Lansio Wikipedia Rhuthun yn Awelon, Diwrnod Agored 'Goodman'.
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Cyfarfod Rhyfel Byd Cyntaf, Sul Dinesig
Cyng. Ken Hawkins	Sul Dinesig
Cyng. Menna Jones	Sul Dinesig, Agor Canolfan Ddydd newydd yn Valley Lodge, Llanarmon yn Iâl, Pwyllgor Rheolaeth Ysgol Borthyn
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod par Rhyfel Byd Cyntaf, Cyfarfod Iechyd Gogledd a Chanolbarth Cymru; Ymlaen Rhuthun x 4; cyfarfod yn Ysgol Brynhyfryd par gwasanaeth Rhyfel Byd Cyntaf; cyfarfod gyda Shelly Barratt (Cydlynydd y Dref); 'Town Hall Gospel Choir' yn Ysgol Brynhyfryd; Sul Dinesig; Beirniadu Cystadleuaeth Arddangosfa Flodeuol; Cyngerdd - Pafiliwn Llangollen; Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn Neuadd y Sir; Lansio Wikipedia Rhuthun yn Awelon; Cyfarfod gyda Neil Dalrymple; Llyfrgell Rhuthun.
Cyng. Emrys Wynne	Sul Dinesig, Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru.

60. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2014.*

61. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

62. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

63. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2014.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

64. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2014.*

65. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) CYMDEITHAS GYMUNEDOL LLANFWROG – ARDDANGOSFA TAN GWYLLT

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gymorth ariannol o £1,000.00 tuag at y digwyddiad uchod – mae £1,000.00 yn y gyllideb o dan 'Arddangosfa Tan Gwyllt'.
PENDERFYNWYD: gwneud cyfraniad o £1,000.00 tuag at y digwyddiad uchod. I gydnabod cymorth y Cyngor Tref ar unrhyw ddefnydd hysbysebu a bod posteri ayyb yn cael eu paratoi yn ddwyieithog.

(b) CÔR RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref ffurflen 'Cais am Gymorth Ariannol' wedi ei gwblhau ynghyd a chyfrifon am ddwy flynedd gan y Mudiad uchod yn gofyn am gymorth Ariannol tuag at gost taith swyddogol i Ganada'r flwyddyn nesaf.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £1,000.00 i'r Mudiad uchod.*

66. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL - ELUSENNAU TREF RHUTHUN

Derbyniodd yr aelodau gopi o e-bost gan Ysgrifennydd y Mudiad uchod.

67. SUL DINESIG - 6ed Gorffennaf 2014

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau talu pum anfoneb cyfanswm £1,185.00 par yr uchod.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau talu'r pum anfoneb cyfanswm £1,185.00.*

68. TIM Y DREF

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau talu £1,000.00 i Drysorydd Tîm y Dref - mae £1,000 yn yr arian Wrth Gefn o dan y pennawd yma sydd yn cael ei ddal ar ran Cyngor Sir Ddinbych.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau talu ar yr amod bod cadarnhad ysgrifenedig yn cael ei dderbyn gan Gyngor Sir Ddinbych.*

69. CIST GYMUNEDOL CLWYD

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu aelodaeth o'r Mudiad uchod ar gost o £10.00.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau adnewyddu ein haelodaeth ar gost o £10.00.*

70. PARCIO YN NEUADD Y SIR

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gofyn i Grosvenor Facilities agor y Maes Parcio dros y penwythnosau. Dywedodd aelod nad oes Sicrwydd Yswiriant Cyhoeddus ar gyfer y cyhoedd.
***PENDERFYNWYD**: peidio â mynd ymlaen gyda'r mater.*

71. DARREN MILLAR, A.C.

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr oddi wrth Darren Millar, A.C. sydd yn dymuno mynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref.
***PENDERFYNWYD**: gwahodd Mr Darren Millar, A.C. i gyfarfod o'r Cyngor Tref.*

72. COFFAU 100 MLYNEDD ERS DECHRAU RHYFEL BYD CYNTAF

Derbyniodd yr aelodau rhagor o fanylion am y gwasanaeth arbennig i'w gynnal bore Sul, 3ydd Awst 2014 yn Eglwys Sant Pedr am 10:30 a.m.

73. PWERAU BRYS

***PENDERFYNWYD**: awdurdodi'r Maer a'r Dirprwy Faer i arwyddo sieciau a chymeradwyo Ceisiadau Cynllunio nad ydynt yn ddadleuol yn ystod y gwyliau.*

74. CYFARFOD ARFEROL A PHWYLLGORAU- HYDREF 2014

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais i newid dyddiad y Cyfarfod Arferol ym mis Hydref o Nos Lun, 27ain i Nos Lun, 20fed Hydref a'r Pwyllgorau o Nos Lun 13eg i Nos Lun, 6ed Hydref.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r newidiadau.*

75. 'DIWRNODAU PARCIO RHAD AC AM DDIM'

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried amnewid Dydd Sadwrn, 29ain Tachwedd am Ddydd Sadwrn, 20fed Rhagfyr fel 'Diwrnod Parcio Rhad ac am Ddim' gan fydd y Farchnad a switsio'r Goleuadau Nadolig ymlaen yn cael eu cynnal ar y diwrnod yma.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r amnewid.*

76. ARWYDDION A55

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried e-bost oddi wrth Gyngor Tref Dinbych sydd yn gofyn am ein cefnogaeth i ddod a'r mater yma ymlaen unwaith eto mewn cyfarfod cyhoeddus i'w drefnu gyda'r Aelod o'r Cynlluniad lleol.
***PENDERFYNWYD**: bod y Maer, Cyng. Stephen Beach, yn mynychu'r cyfarfod.*

77. PLAC WIKIPEDIA – CLOC Y DREF

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan Ron Bell sydd yn dymuno gosod plac QR ar Gofgolofn Peers ar Sgwâr Sant Pedr. Nid oes unrhyw wrthwynebiad gan y Phil Ebbrell, Pensaer Cadwraeth, Cyngor Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD**: cytuno i'r cais.*

78. FFURFLEN FLYNYDDOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr oddi wrth Uhy Hacker Young, Archwilydd Allanol, sydd yn dymuno cyhoeddi tystysgrif archwilio ddiamod.

***PENDERFYNWYD**: derbyn y llythyr.*

79. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30ain Mehefin 2014

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

80. CYFRIFON I'W TALU

A.B.	Canda Copying Ltd	Hurio Ffotogopiwr	*	129.14
591	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
592	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
593	Cyng. Anne Roberts	Costau Teithio		46.35
594	Cyngor Sir Ddinbych	Ffi parthed Hyfforddiant i Ddirprwy Gadeiryddion		35.00
595	N.Woodcock (Black Dog)	Fframio Tystysgrif Dinesydd Da		54.00
596	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - du a gwyn	*	46.38
597	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol - lliw	*	61.33
598	J. & C. Brimble	Dyfrio'r planwyr – 2 Meh – 5 Gor (9 gwaith)		1,216.80
599	J. & C. Brimble	Dyfrio Coed Llwybr Celf – 18 Mai – 5 Gor (11 gwaith)		275.00
600	Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio yng Nghei Conna – Gwener, 18 Gorffennaf		29.00
601	Fineline Printing & Stationery	Cyflenwad swyddfa (gan gynnwys peiriant rhwygo)	*	166.56
602	Leander Architectural	Plac Edward Pugh	*	330.24
603	Y Bedol	Hysbyseb par Gwasanaeth yn Sant Pedr		15.00
604	Chapman Contractwyr Paentio	Ailbeintio'r Parc Sgrialu yng Nghae Ddôl		3,826.00
605	Ground Control	Torri Glaswellt – Mai 2014	*	448.62
606	Ground Control	Torri Glaswellt – Mehefin 2014	*	448.62
607	Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog	Arddangosfa Tan Gwyllt		1,000.00
608	Côr Rhuthun	Cyfraniad		1,000.00
609	Cist Gymunedol Clwyd	Aelodaeth		10.00
610	**Siec wedi ei chanslo**	**Siec wedi ei chanslo**		**0.00**
611	Bar Llaeth	Sul Dinesig – te prynhawn		273.00
612	Cyng. Stephen Beach	Ad-daliad parthed Band Tref Llangollen		120.00
613	Ffrindiau Nantclwyd y Dre	Hurio Gasibo		35.00
614	Becws Eryrod	Sul Dinesig – mochyn wedi ei rostio		507.00
615	Tîm y Dref	Arian a ddelir ar ran Cyngor Sir Ddinbych		1,000.00
616	Cyngor Sir Ddinbych	Sul Dinesig - Hurio Nantclwyd y Dre		250.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £286.81)

81. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 22 Medi 2014*